Cynllun Sabothol iaith-Gymraeg – Adborth gan Ymarferwyr

Hyfforddiant iaith-Gymraeg yn arbrawf llwyddiannus i athro cemeg

Nid yw David Earnshaw yn gorfod gofyn i'w gydweithwyr wirio ei waith ysgrifenedig rhagor, diolch i gwrs iaith-Gymraeg arloesol a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad.

Er bod David, Pennaeth Cemeg yn Ysgol y Berwyn, Bala, yn siarad Cymraeg yn rhugl, roedd yn llai hyderus wrth ysgrifennu deunydd yn Gymraeg, a byddai'n gofyn barn eraill yn gyson.

David yw un o'r bobl ddiweddaraf i gwblhau'r Cynllun Sabothol iaith-Gymraeg, cwrs dwys tri mis a gynlluniwyd i roi'r sgiliau angenrheidiol i ymarferwyr er mwyn addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

"Rwyf bellach yn fwy hyderus wrth ysgrifennu deunydd cwrs yn Gymraeg, a does dim angen i mi ddibynnu ar bobl eraill i wirio fy ngwaith. Bydd fy ngwaith i, a'm cydweithwyr, yn haws o lawer nawr.

"Buaswn yn sicr yn argymell y cwrs i athrawon eraill. Roedd y tiwtoriaid yn grêt ac roedd awyrgylch y cwrs bob amser yn gadarnhaol, a oedd yn gwneud y profiad dysgu yn bleserus."

David Earnshaw, a gymerodd ran yng nghwrs Bangor ym mis Ebrill 2007

Eleanor yn ychwanegu Cymraeg at ei rhestr o ieithoedd

Mae Eleanor Lewis, darlithydd leithoedd Modern, yn dweud ei bod wedi dysgu gwerth dwy flynedd o Gymraeg mewn dim ond tri mis, diolch i'r Cynllun Sabothol iaith-Gymraeg.

Mae Eleanor, sy'n gweithio yng Ngholeg Castell Nedd Port Talbot, yn siarad Ffrangeg, Eidaleg a Sbaeneg yn rhugl ac yn gallu cynnal sgwrs yn Almaeneg. Yn dilyn y cwrs sabothol, mae nawr yn rhoi gwersi Sbaeneg drwy gyfrwng y Gymraeg i fyfyrwyr yn Ysgol Gyfun Ystalyfera.

"Roedd y cwrs yn waith caled ac roedd dysgu sut i addysgu Sbaeneg trwy gyfrwng y Gymraeg yn heriol iawn. Ond roedd yn sbort ac yn ysgafngalon," dywedodd Eleanor.

"Pan es i nôl i'r gwaith, dywedodd un o'm cydweithwyr fy mod yn swnio'n rhugl. O'r blaen, os oedd rhywun yn siarad Cymraeg â mi, buaswn yn ceisio ateb yn Gymraeg, yna'n troi i'r Saesneg. Nawr, os mae siaradwr Cymraeg yn siarad Saesneg â mi, rwy'n gwylltio!"

Eleanor Lewis, a gymerodd ran yng nghwrs Caerdydd ym mis Ebrill 2007

Y cwrs hyfforddi - beth sydd angen i chi ei wybod

Mae'r cynllun ar gael i athrawon mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, darlithwyr addysg bellach a darparwyr hyfforddiant yn y gweithle yng Nghymru. Gallant weithio'n rhan amser neu'n llawn amser. Gellir ystyried staff cyflenwi hefyd yn dibynnu ar amodau penodol. Cynlluniwyd y cwrs ar gyfer pobl sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf neu ddysgwyr rhugl.

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael cyfnod sabothol o'r gwaith i gwblhau'r cwrs, sy'n rhoi hyfforddiant iaith a phedagogaidd, ac arweiniad ar baratoi adnoddau addysgu cyfrwng Cymraeg. Mae'r cynllun, sydd wedi'i ymestyn hyd Gorffennaf 2009, yn talu am yr holl gostau.

Mae'r hyfforddiant ar gael ym Mhrifysgol Bangor a Chaerdydd. Mae opsiwn dysgu o bell ar gael hefyd. Cynhelir y cwrs nesaf ym mis **Ebrill 2008**.

Dylai unrhyw un sydd â diddordeb gysylltu â: 01443 663770
cynllunsabothol@cymru.gsi.gov.uk www.cymru.gov.uk/cynllunsabothol

G/541/07-08
CMK-22-07-265